



Prentisiaethau Diffoddwyr Tân ac Arweinwyr y Dyfodol

Oriau Wythnosol: 42 awr yr wythnos

Cyfnod: tair blynedd

Tâl: Graddfa Diffoddwr Tân Dan Hyfforddiant £23,366 y flwyddyn

Cwestiynau Cyffredin

<p>Beth ydi'r gofynion mynediad ar gyfer y brentisiaeth hon?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i chi fod yn 18 oed ar ddechrau'r brentisiaeth • <i>Ar gyfer y prentisiaethau Diffoddwyr Tân:</i> TGAU Gradd A-C mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg neu gymhwyster cyfatebol (gyda thystiolaeth) • <i>Ar gyfer y prentisiaethau Arweinwyr y Dyfodol:</i> 2 Lefel-A Gradd A – C neu gymwysterau cyfatebol (gyda thystiolaeth) • Llwyddo yn y Profion Dethol Cenedlaethol i Ddiffoddwyr Tân (cyfeiriwch at yr adran Ffitrwydd am ragor o wybodaeth am y profion dethol) • Pasio Archwiliad Meddygol mynediad y Gwasanaeth sydd yn cynnwys Asesiad Ffitrwydd a Phrawf Llygaid • Canlyniadau clir yn dilyn Gwiriad Datgeliad Troseddol Lefel Sylfaenol
<p>Beth os dydw i ddim yn 18 oed pan ydw i'n cofrestru?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i chi fod yn o leiaf 18 oed ar ddechrau'r brentisiaeth (y dyddiad cychwyn arfaethedig ar gyfer y Prentisiaethau Arweinwyr y Dyfodol ydi Mai 2020 a'r dyddiad ar gyfer y Prentisiaethau Diffoddwyr Tân ydi Gorffennaf 2020) • Os nad ydych chi'n 18 oed yn ystod y cyfnod cofrestru ond eich bod erbyn y dyddiad cychwyn arfaethedig, yna cewch gofrestru trwy'r porth ar-lein, fodd bynnag ar ôl cwblhau'r cais byddwch yn cael neges gan y system yn dweud nad ydych chi'n gymwys gan nad ydych chi'n 18 oed. • Bydd yr adran AD yn adolygu ceisiadau ar ôl eu derbyn ac yn cysylltu gyda chi dros e-bost i roi gwybod pa un ai a fydd eich cais yn cael ei brosesu ai peidio • Os nad ydych chi'n 18 oed tan ar ôl y dyddiad cychwyn arfaethedig yna ni fyddwn yn prosesu'ch cais • Cysylltwch â hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn
<p>Pa gymwysterau ga' i?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau Hanfodol mewn Saesneg, Mathemateg, Cymraeg a Llythrennedd Digidol • Diploma Lefel 3 Cymru Gyfan mewn Gweithrediadau Brys Gwasanaethau Tân ac Achub yn y gymuned • Sgiliau Dysgu a Meddwl Personol • Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth
<p>Pa hyfforddiant ga' i?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr hyfforddiant cychwynnol yn darparu amrywiaeth o sgiliau ymarferol a sylfaenol mewn diffodd tanau a sgiliau theoretig a hyfforddiant i roi Cyngor ynghylch Diogelwch Tân i'n cymunedau

Beth fydd fy mhatrwm gwaith?	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwch yn gweithio ar system shifftiau mewn gwahanol leoliadau/Gorsafoedd Tân yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys dyddiau, nosweithiau, penwythnosau a gwyliau banc fel y bo'r angen. • Cynhelir hyfforddiant mewn lleoliadau yng Ngogledd Cymru
Beth fyddaf yn ei wneud yn y swydd?	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio fel rhan o dîm uchel ei barch • Dysgu sgiliau diffoddwyr tân proffesiynol • Deall pwysigrwydd gwneud cymunedau'n fwy diogel drwy wneud gwaith diogelwch cymunedol.
Pa gymorth parhaus fyddaf yn ei gael?	<ul style="list-style-type: none"> • Cewch eich hyfforddi a'ch mentora'n barhaus drwy gydol y brentisiaeth • Cewch eich asesu mewn gwahanol ffyrdd, a allai gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - Asesiadau wrth eich gwaith - Tystiolaeth o'ch dyletswyddau - Paratoi portffolio tystiolaeth
Fyddaf i angen trwydded yrru?	<ul style="list-style-type: none"> • Does dim rhaid i brentisiaid gael trwydded yrru • Fodd bynnag, mae'n bosib y cewch eich hanfon i weithio mewn gorsaf dân, gwylfa neu adran unrhyw le yng Ngogledd Cymru a chi fydd yn gyfrifol am gyrraedd eich gwaith
Oes rhaid i mi fod yn Ddinesydd Prydeinig i ymgeisio?	<ul style="list-style-type: none"> • Cewch fod o unrhyw genedligrwydd i ymgeisio, cyn belled bod gennych chi'r hawl i aros yn y DU yn ddiamod. Bydd rhaid i chi ddangos tystiolaeth bod gennych chi'r hawl i weithio yn y DU yn ystod y broses recriwtio
Oes raid i mi allu siarad Cymraeg?	<ul style="list-style-type: none"> • Does dim rhaid i chi allu siarad Cymraeg yn rhugl fodd bynnag bydd rhaid i chi ymrwymo i'n cynllun iaith Gymraeg • Rhaid i bob recriwt newydd gyrraedd safon Lefel 2 mewn Cymraeg o leiaf yn ystod cyfnod prawf o 12 mis (oni bai eich bod wedi cyrraedd y safon yn ystod y broses ymgeisio) a bydd rhaid i chi gyflawni safon Lefel 3 Cymraeg Siarad a Gwrando cyn i'r brentisiaeth ddod i ben • Bydd cefnogaeth a hyfforddiant ar gael yn ôl y galw i gyrraedd y lefelau hyn
Ga' i ymgeisio os oes gen i gofnod troseddol?	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fydd cofnod troseddol yn eich hatal rhag dod yn Ddiffoddwr Tân Prentis o reidrwydd. • Rhaid i chi ddatgan unrhyw euogfarnau sydd heb ddod i ben o dan Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Mae hyn yn cynnwys unrhyw droseddau a ymdriniwyd â hwy gan lys barn, gweithdrefnau disgyblu Gwasanaethau Ei Mawrhydi ac unrhyw droseddau gyrru. • Cyn unrhyw gynnig o gyflogaeth bydd rhaid i chi gwblhau dogfen ddatgelu'r Biwro Cofnodion Troseddol. Os, yn ystod unrhyw ran o'r broses, y daw hi'n amlwg eich bod chi heb ddatgelu euogfarn, bydd eich cais yn cael ei dynnu'n ôl. <p>I gael gwybod mwy am euogfarnau sydd heb ddod i ben ewch i www.disclosurecalculator.org.uk</p>

<p>Fyddda i ddim yn derbyn fy nghanlyniadau Lefel-A tan fis Awst, ga' i ymgeisio ar gyfer y Prentisiaeth Arweinwyr y Dyfodol cyn derbyn fy nghanlyniadau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i chi fod â'r cymwysterau priodol mynediad cyn ymgeisio ar gyfer y Brentisiaeth a rhaid i chi ddangos tystiolaeth o'r cymwysterau hyn er mwyn cael eich ystyried fel rhan o'r broses • Bydd rhaid i chi ddangos copi o'ch canlyniadau (ar gyfer y ddwy rôl) yn ystod cyfnod cymhwystra'r broses
<p>Mi wnes i ymgeisio ar gyfer y rôl Diffoddwr Tân WDS yn gynnar yn 2019, oes raid i mi ailymgeisio i gael fy ystyried ar gyfer y prentisiaethau hyn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Oes, os hoffech gael eich hystyried ar gyfer y prentisiaethau, bydd rhaid i chi ailymgeisio drwy'r porth cofrestru gan fod hon yn broses recriwtio ar wahân
<p>Ydi'r safonau mynediad yn wahanol i ddynion o gymharu â merched?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Na, mae'r asesiadau a safonau angenrheidiol sydd yn rhaid eu cyflawni'r un fath i bawb
<p>Pa mor ffit sydd yn rhaid i mi fod?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i chi fod yn eithaf ffit a chynnal eich lefelau ffitrwydd drwy gydol eich gyrfa • Bydd rhaid i chi gwblhau asesiad ffitrwydd i gadarnhau lefel ffitrwydd o VO2 Lefel 42 o leiaf • Rhaid i chi gynnal pwysau a ffordd o fyw iach. Cyfeiriwch at yr adran Ffitrwydd am ragor o wybodaeth

<p>Mae gen i anabledd; ga' i ymgeisio?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cewch: cyn belled eich bod chi'n bodloni'r asesiad meddygol unigol fydd yn cynnwys ystyried unrhyw farn meddygol neu adroddiadau meddygol yr hoffech eu cyflwyno • Rydym ni wedi llwyr ymrwymo i gwrdd â'n dyletswyddau cydraddoldeb sydd wedi eu gosod yn y ddeddfwriaeth bresennol, yn benodol Deddf Cydraddoldeb 2010 <p>Ni all y Gwasanaeth Tân ac Achub wneud unrhyw addasiadau i ofynion hanfodol y rôl, fel y nodir yn y Fanyleb Person a Swydd Ddisgrifiad, na'r Safonau Ffitrwydd cenedlaethol. Mae'r gofynion a safonau hyn wedi cael eu gosod i wneud yn siŵr bod unigolion yn ddiogel wrth eu gwaith, er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain ac eraill.</p> <p>Os oes gennych chi anabledd a'ch bod chi'n teimlo y gallech chi gwrdd â'r gofynion hanfodol sydd wedi eu nodi yn y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person, ond bod y broses o ddeddf/asesu yn eich hatal rhag dangos eich gallu'n llawn, yna mae'n bosibl y gallwn ystyried gwneud addasiadau rhesymol i'r broses. I wneud yn siŵr bod y gefnogaeth angenrheidiol ar gael i chi, rhaid i chi roi gwybod i'r ganolfan asesu ynglŷn â'h anghenion penodol ymlaen llaw.</p> <p>Bydd unrhyw gyflwr meddygol neu gyfyngiad ymarferol yn annerbyniol os ydyw, er gwaethaf unrhyw addasiadau rhesymol, yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol yn y risg y gallai'r canlynol ddigwydd yn y gwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Llewyg neu anallu sydyn; - Crebwyll diffygiol neu ymwybyddiaeth yn newid; - Salwch neu anaf corfforol neu seicolegol sylweddol; - Unrhyw effaith arall a fyddai'n peri risg iechyd a diogelwch sylweddol i chi ac i eraill.
<p>Ga' i ymgeisio os ydw i'n gwisgo sbectol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhaid i chi drefnu i optometrydd cymwys gwblhau ffurflen Golwg ar eich rhan. Mae'r prif ofynion o ran golwg fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> - Craffter golwg , llygad dde 6.9, llygad chwith 6.9, neu well (gellir cyrraedd y safon gyda neu heb sbectol) - Golwg lliw o safon dda (bydd yn rhaid i chi gwblhau asesiad golwg lliw os oes gennych nam ar eich golwg lliw) - Os bydd Llawdriniaeth Laser Llygaid wedi cael ei defnyddio, ni fydd ceisiadau'n cael eu hystyried am o leiaf 12 mis wedi dyddiad y llawdriniaeth.
<p>Mae gen i ddyslecsia; pa gefnogaeth ga' i?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dyslecsia yn cael ei ystyried yn anabledd a byddwn yn gofyn a oes gennych chi anabledd fel rhan o'r broses recriwtio • Pan fyddwch chi'n cwblhau profion ysgrifenedig sy'n cael eu hamseru byddwn yn gofyn os ydych chi'n dioddef o ddyslecsia ac fe ddylech chi ateb "ydw" • Wedyn byddwn ni'n gofyn i chi gysylltu gyda ni'n uniongyrchol er mwyn i unrhyw addasiadau rhesymol gael eu gwneud, megis rhoi mwy o amser i chi gwblhau asesiadau • Bydd rhaid i chi ddangos tystiolaeth o'ch dyslecsia
<p>Mae gen i locsyn am resymau crefyddol; fydd rhaid i mi eilio i gael bod yn ddiffoddwr tân?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae blewiach ar yr wyneb (locsyn a chernflew) yn effeithio ar sêl yr Offer Resbiradol Amddiffynnol (RPE) gan gynnwys yr Offer Anadlu a mygydau, ac felly mae'n rhaid i bob aelod o'r staff fod ag wyneb wedi ei eilio'n lân er mwyn sicrhau bod sêl y mwgwd yn gweithio'n iawn

Mae gen i datw̃s; fydd hyn yn broblem?	<ul style="list-style-type: none">• Mae tatw̃s yn dderbyniol cyn belled nad ydynt yn achosi sarhad• Dydi tatw̃s sydd yn anfoesgar, di-chwaeth, hiliol, rhywiaethol, sectyddol, homoffobig, treisgar neu'n portreadu trais ddim yn dderbyniol
Mae gen i lawer o dlysau corff; fydd hyn yn broblem?	<ul style="list-style-type: none">• Am resymau iechyd a diogelwch, rhaid tynnu tlysau corfforol cyn dechrau dyletswyddau gweithredol